Tirwedd Dyfi

Pwrpas Tirwedd Dyfi yw archwilio a dathlu'r cysylltiadau rhwng y diwylliant Cymraeg, y tirlun a byd natur, trwy ddefnyddio Biosffer Dyfi UNESCO fel ardal arddangos

Prif ddigwyddiadau:

Ymryson y Beirdd

Gyda thimau o'r dair sir sydd â rhannau ohonynt ym Miosffer Dyfi, gyda thestunau perthnasol
Nos Wener **14 Mai** 2010 ym Mhlas Machynlleth 7.00 yh. Pris mynediad £3

Taith Gerdded: 6.5 milltir yn cynnwys Llyn Glanmerin

Trefnir gan Gymdeithas Edward Llwyd cymdeithasedwardllwyd.org.uk
Cwrdd ym Maes Parcio Canolfan Hamdden Bro Ddyfi am 10.30yb dydd Sadwrn **22 Mai**
Rhaid archebu ymlaen llaw (01650 521843). Am ddim

Cystadleuaeth "Llun a Llên"

Ar agor i bawb tan ddiwedd 2010
Rydym yn chwilio am luniau (unrhyw gyfrwng) a geiriau (i fyny at 300) sy'n berthnasol i amcanion Tirwedd Dyfi; cyfle i chi gydweithio gyda ffrind, plentyn neu berson di-Gymraeg!

Prosiect ysgol

Sesiwn ysgrifennu creadigol i blant Blwyddyn 4, 5 a 6 Ysgol Dinas Mawddwy ar 22 Ebrill, gyda Twm Morys a Lynn Denman. Yr amcan yw creu casgliad o gerddi byrion neu linellau barddonol sy'n gysylltiedig â'r themâu sydd wedi'u hamlinellu.

Achlysur arall

Gwanwyn 2011: Cloi'r prosiect gyda digwyddiad fydd yn adolygu ac yn arddangos y canlyniadau, gan gynnwys gweithdai, perfformiadau ac arddangosfa. Beth ydych yn awgrymu neu gynnig?

Manylion pellach:
Ecodyfi; Andy Rowland neu Allan Wynne Jones
Tŷ Bro Ddyfi, 52 Heol Maengwyn, Machynlleth SY20 8DT
01654 703965 andy.rowland@ecodyfi.org.uk

Biosffer Dyfi Biosphere

ecodyfi

cae cronfa arbrofol eryri an environment development fund

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales